ATHRAWIAETH IACHUS.

"Canys daw yr amser pryd na ddyoddefant ATHRAWIAETH IACHUS eithr yn ol eu chwantau eu hunain y pentyrant iddynt eu hunain athrawon gan fod eu clustiau yn meirwino."—2 TIM. IV, 3.

PA le y ceir gafael mewn "athrawiaeth *iachus*? Mae digon o athrawiaethau ereill yn ein hymyl. Gallem feddwl fod rhai yn ei chael ar droion; ond erbyn chwilio, rhyw Armin neu Galfin sydd yn clywed ei athrawiaeth ei hun, ac yn ei galw yn iachus. Yr oedd athrawiaeth Iesu Grist a'i apostolion yn athrawiaeth iachus; ond y mae amser mawr oddiar hyny, a dichon fod yn anhawdd iawn yn bresennol i gael gafael ynddi. Er hyny, nid yw y byd mor eang, os oes athrawiaeth iachus i'w chael ynddo, nas gellir dyfod o hyd iddi. Ond cyn gwneyd un math o ymchwiliad am dani, dylem feddu ei nodau yn gyntaf; ac wedi cael ei nodau yn gywir, bydd yn eithaf rhwydd i gael gafael ynddi, lle bynag y mae. Na ofaled neb pa le y ceir hi, nac wrth ba enw; canys ei chael yw mater ein hymchwiliad. Wrth ei nodau, ynte, y mae ei hadnabod; a gellir gweled ei nodau oll yn y Testament Newydd, yr hwn a ystyrir yn safon gan bob plaid sy'n proffesu "athrawiaeth iachus." Y mae amser i ddyfod, neu eisoes wedi dyfod, pryd na ddyoddefir athrawiaeth iachus; ond ni fydd hyny yn rhwystr, eithr yn help, i gael gafael ynddi.

Yn awr, ceir dangos pa beth oedd yn athrawiaeth iachus yn amser Crist a'r apostolion; a'r hyn oedd yn athrawiaeth iachus y pryd hyny, a ddylai fod yn athrawiaeth iachus etto. Nid yw yn bosibl i'r hyn a ystyrid yn iachus gynt, i fod yn afiachus yn awr: y mae yr hyn sydd yn iachus i barhau felly o hyd. Yr oedd y cyfan a lefarai Iesu Grist yn sicr o fod yn athrawiaeth iachus. Un peth a lefarodd efe oedd hyn:—"Ewch i'r holl fyd, a phregethwch yr efengyl i bob creadur. Y neb a gredo ac a fedyddier, a fydd cadwedig: eithr y neb ni chredo a gondemnir. A'r arwyddion hyn a ganlynant y rhai a *gredant*: Yn fy enw i y bwriant allan gythreuliaid; ac a thafodau newyddion y llefarant; seirff a godant ymaith, ac os yfant ddim marwol, ni wna iddynt ddim niwed; ar y cleifion y rhoddant eu dwylaw, a hwy a fyddant iach" (Marc. xvi, 15—11). Dyna athrawiaeth iachus, medd yr

ond pwy sydd yn ei phregethu, ac yn medru ei dyoddef? A oes rhyw enwad yn athrawiaethu fel yna, heblaw Saint y Dyddiau Diweddaf? Nac oes, neb. Y sawl a ddywed nad yw yr arwyddion i ganlyn y rhai a gredant, a ddywed hefyd nad yw athrawiaeth Crist yn iachus; a'r sawl a haera nad oes eisieu arwyddion yn awr, a haera hefyd mewn ffordd nad oes eisieu credu a bedyddio, ychwaith; canys y neb a all ddileu un ran o'r commissiwn, a all ddileu y cyfan. Etto, peth arall a ddywedodd Crist oedd, y buasai i'r nef a'r ddaear fyned heibio, cyn y pallai un dim a ddywedodd efe: y mae hyny hefyd yn athrawiaeth iachus, yr hon a gydnabyddir gan lawer mewn gair, ond a wedir mewn gweithred. Un peth nodedig arall a lefarodd ein Harglwydd, yw yr hyn a welir yn Ioan iii, 5, sef "Yn wir, yn wir, meddaf i ti, Oddi eithr geni dyn o ddwfr ac o'r Ysbryd, ni ddichon efe fyned i mewn i deyrnas Dduw." Dyna athrawiaeth iachus etto, yn dangos yr anghenrheidrwydd anhebgorol o fedydd dwfr a bedydd yr Ysbryd Glân, cyn y gellir myned i mewn i'r deyrnas. Etto, athrawiaeth iachus ddigon a bregethai Pedr ar ddydd y Pentecost, pan y dywedai, "Edifarhewch, a bedyddier pob un o honoch yn enw Iesu Grist, er maddeuant pechodau; a chwi a dderbyniwch ddawn yr Ysbryd Glân: canys i chwi mae yr addewid, ac i'ch plant, ac i BAWB yn mhell, cynnifer ag a alwo ein Duw ni ato" (Actau ii, 38—39). Fe welir mai bedydd er maddeuant pechodau, ac addewid o'r un Ysbryd Glân i bawb yn gyffredinol, oedd athrawiaeth Pedr, ac nid rhyw beth arall. Arddodiad dwylaw apostolion neu henuriaid oedd i gyfranu yr Ysbryd hwnw i'r bedyddiedigion; gwel Act. viii, 14—19, a xix, 6. Dyna beth yw athrawiaeth iachus etto. Athrawiaeth iachus hefyd oedd desgrifio yr Ysbryd Glân yn beth ag oedd yn *llanw* tai a phersonau (Act. ii, 1—4), ac yn dwyn ar gof yr hyn sydd wedi myned heibio, ac yn mynegi pethau i ddyfod. Cyn bod yr Ysbryd yn llanw rhywbeth, mae yn rhaid ei fod yn sylweddol a theimladwy; canys "*eglurhad* yr Ysbryd a roddir i bob un er llesâd" (1 Cor. xii, 7), yr hyn sydd etto yn athrawiaeth iachus. Dyben eglurhad yr Ysbryd yw, fel y gallo pawb ddweyd mai Crist yw yr Arglwydd (adn. 3), a thrwy hyny ei adnabod ef, a thrwy ei adnabod i feddu bywyd tragywyddol; canys "hyn yw y bywyd tragywyddol, iddynt dy adnabod di yr unig wir Dduw, a'r hwn a anfonaist ti, Iesu Grist." Mae hyn etto, fel yr holl ddywediadau ereill, yn athrawiaeth iachus; ac os oes rhywun am brawf, gwnaed yn unol ag athrawiaeth arall

UPB

o eiddo Iesu Grist, sef—"Os ewyllysia neb wneuthur ei ewyllys Ef, efe a gaiff wybod am y ddysgeidiaeth, pa un ai o Dduw y mae hi" (Ioan vii, 17). Heblaw yr holl bethau hyn, gwelwn fod y dywediadau canlynol o eiddo Paul yn athrawiaeth iachus hefyd; sef—"Deisyfwch y doniau ysbrydol;" "na waherddwch lefaru â thafodau;" ac "na ddirmygwch brophwydoliaethau." Etto, i gwpla y cyfan, dyweda yr apostol, "Od oes neb yn dysgu yn amgenach, ac heb gytuno ag iachus eiriau ein Harglwydd Iesu Grist, ac â'r athrawiaeth sydd yn ol duwioldeb; chwyddo y mae, heb wybod dim" (1Tim. vi, 3, 4); ac meddai Paul hefyd, "Eithr pe byddai i ni, neu i angel o'r nef, efengylu i chwi amgen nâ'r hyn a efengylasom i chwi, bydded anathema" (Gal. i, 8). Bellach, y mae pawb yn gwybod pa fath un yw athrawiaeth iachus, fel nad oes achos mwyach i gamsynied yn ei chylch.

Y peth nesaf, wedi cael gafael ar nodau athrawiaeth iachus, yw mynu gwybod pa blaid sydd yn ei phregethu yn y dyddiau hyn. Mae yn rhwydd ddigon i gyrhaedd gwybodaeth o hyny, heb fyned allan o Gymru. Dilyner rhai o bregethwyr Saint y Dyddiau Diweddaf i wahanol eglwysi a chapeli y wlad, er cael gweled os gellir eu dyoddef hwy yno yn dweyd, fel Iesu Grist a'i apostolion, fod yr arwyddion i ganlyn y credinwyr, ac mai dyledswydd pawb yw deisyf y doniau ysbrydol, a pheidio gwahardd llefaru â thafodau, na dirmygu prophwydoliaethau; nac ychwaith i efengylu dim yn amgen nag a efengylodd Paul a'i frodyr! Yn fuan ceid prawf o hollol gyflawniad prophwydoliaeth Paul, yr hwn a ddywed, "Canys daw yr amser pryd na ddyoddefant athrawiaeth iachus; eithr yn ol eu chwantau eu hunain y pentyrant iddynt eu hunain athrawon, gan fod eu clustiau yn merwino; ac oddiwrth y gwirionedd y troant ymaith eu clustiau, ac at chwedlau y troant." Mor lythyrenol y mae hyn oll yn cael ei gyflawni yn y dyddiau yma! Cyfaddefir yn gyffredin fod y Saint yn *athrawiaethu* yr un peth â'r apostolion, os yw eu gwyrthiau dipyn yn annhebyg; ac am hyny, rhaid mai sectariaid y wlad, ac nid y Saint, yw y rhai "na ddyoddefant athrawiaeth iachus." Er cael prawf cadarnach mai hwy yw y rhai hyny, gallwn sylwi arnynt, "yn ol eu chwantau eu hunain, yn pentyru iddynt eu *hunain* athrawon, gan fod eu clustiau yn merwino," ac yn methu dyoddef y geiriau hyny a lefarai Crist a'r apostolion. Mae yr eglwysi, yn gyffredin, yn pentyru eu hathrawon, yn gwir yr un fath â phe gwelid nifer o blant diddysg yn dewis ysgolfeistr i'w dysgu, yn ol eu chwantau

eu hunain, ac heb ganiatâd eu rhieni, o herwydd eu bod wedi diflasu ar yr hen ddull, ac yn dewis meistr a allo chwedleua! Dyna'y darlun yn berffaith. Beth yw crefyddwyr y wlad ond plant eisieu eu dysgu! beth yw y parchedigion ond athrawon neu ysgolfeistri? a pheth yw y "galwadau" yn y capeli, ond plant yn "pentyru iddynt eu hunain athrawon," a hyny hefyd yn ol eu chwantau? Pa athraw bynag sy'n boddio clustiau y plant hyn â'i chwedlau Arminaidd, Ffwleraidd, Calfinaidd, Trochyddol, a Mormonaidd, dewisir a chyflogir ef ganddynt yn union, heb ymholi dim â'u Tad sydd fry (neu os ymholant, ni arosant am un ateb); ac yna, os na pharha i foddio eu clustiau merwinol hwy, troant ef ymaith, a dewisant chwedleuwr newydd? Ai nid dyna y gwir am gapeli y wlad? os amgen, carem glywed. Mor wahanol i saint y dyddiau gynt, a Saint y Dyddiau Diweddaf! Mor hollol groes i reol y Testament Newydd! Nid plant Duw sydd i ddewis eu hathrawon, na'r athrawon i ddewis eu hunain; eithr y mae pob athraw i ddysgwyl cael ei alw megys Aaron. "Nid chwi a'm dewisasoch i," meddai Crist wrth y deuddeg, "ond myfi a'ch dewisais chwi, ac a'ch ordeiniais chwi" (Ioan xv, 16). Felly hefyd, gorchymynodd Paul i Titus aros yn Creta, i ddewis henuriaid neu athrawon i'r eglwysi i'w dysgu (Tit. i, 5); canys fe wyddai Paul nad oedd yr eglwysi yn ddigon doeth i ddewis eu hathrawon eu hunain, na'u hordeinio; ond gallent godi eu dwylaw er dangos eu cymmeradwyaeth o ddewisiad y llywydd Titus a'i gyd-swyddwyr. Dyna drefn Saint y Dyddiau Diweddaf hefyd; nid oes hawl gan yr aelodau cyffredin, pe byddent fil gyda'u gilydd, i alw cymmaint ag un diacon. Y fath yw y gwahaniaeth rhwng doethineb Duw, ac eiddo dynion.

Yn awr, pwy sydd heb weled gyda phwy y pregethir athrawiaeth iachus? Mae ei nodau wedi eu dangos yn eglur, fel y gall pawb sy'n clywed geiriau Crist a'i apostolion yn cael eu hadrodd, benderfynu eu bod yn clywed "athrawiaeth iachus," yr hon sydd yn eisieu arnynt. Am hyny, ufyddhaer i bregethwyr athrawiaeth iachus, a gadawer "rhith duwioldeb," i gael meddu ei "grym hi;" ac na phentyred neb plant athrawon o ddewisiad eu hunain, rhag eu cael "yn dysgu bob amser, ac heb allu dyfod un amser i wybodaeth y gwirionedd.

J. Davis.